Y Papur Gwyrdd Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chymorth i Gael Prydain i Weithio

1.0 YMATEB GAN CGGC

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Cyflwynir y canlynol mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd, 'Llwybrau at Waith: Diwygio Budd-daliadau a Chymorth i Gael Prydain i Weithio'. Mae'r ymateb yn cynrychioli barnau CGGC, sydd wedi'u hysbysu gan drafodaethau parhaus ag ymarferwyr o'r sector gwirfoddol fel rhan o Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru a'r Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli.

2.0 CYFLWYNIAD

Mae sector gwirfoddol Cymru o dan bwysau ofnadwy ar hyn o bryd, ac eto disgwylir iddo chwarae rhan mewn hwyluso'r diwygiadau a amlinellir yn y Papur Gwyrdd. Pryderwn y bydd y diwygiadau hyn yn arwain at straen pellach ar wasanaethau'r sector gwirfoddol heb gymorth ychwanegol priodol.

Bydd CGGC bob amser yn cefnogi ac yn hyrwyddo buddion gwirfoddoli ac yn ymdrechu i sicrhau bod cyfleoedd yn agored i bawb, gan gynnwys pob

anabl. Ond, gallai'r diwygiadau hyn gael gwared â'r agwedd wirfoddol o wirfoddoli drwy ddefnyddio bygythiadau o dorri cyllid a chyflwyno cosbau fel cymhelliant. Byddai hyn yn cyfyngu unrhyw fuddion posibl o wirfoddoli.

3.0 YR EFFAITH AR GYMRU

3.1 Taro Cymru yn fwy caled

Bydd Cymru yn cael ei tharo'n galetach gan y diwygiadau hyn. Mae 11% o boblogaeth oed gweithio Cymru yn derbyn Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) o'i chymharu â 7.5% yn Lloegr (Thomas a Davies 2025). Cymru hefyd oedd â'r ail gyfran uchaf o bobl anabl o oed gweithio yn y DU. Bydd rhywun anabl sengl heb blant yng Nghymru yn gweld 68% yn llai o incwm aelwyd. Disgwylir i'r tlodi perthnasol mewn aelwydydd a fydd yn cael eu heffeithio gan newidiadau i'r PIP a'r Credyd Cynhwysol (UC) gynyddu 219% (Sefydliad Bevan 2025). Bydd y toriadau hyn yn cael effaith drychinebus ar bobl anabl (a'u plant), gan blymio cannoedd o filoedd o bobl i mewn i dlodi, a llawer mwy i mewn i dlodi dyfnach' (Cyngor ar Bopeth 2025).

3.2 Effaith sector gwirfoddol Cymru

Bydd y diwygiadau hyn hefyd yn cael effaith anghymesur ar sector gwirfoddol Cymru. Mae'r sector eisoes yn delio ag ôl-effeithiau pandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, a chyfyngiadau cyllidebol sydd wedi dod yn sgil ffactorau fel newid cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 78% o fudiadau gwirfoddol wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau, a hanner y mudiadau hyn yn cael anhawster ateb y galw. Mae 69% o fudiadau yn defnyddio arian wrth

gefn i fodloni'r galw, a 38% yn dweud wrthym y bydd angen iddynt ystyried camau mawr, gan gynnwys cau, os na fydd pethau'n gwella yn y flwyddyn nesaf (Zhivkova 2025). Nid yw gwirfoddoli am ddim, a bydd sector gwirfoddol Cymru yn ei chael hi'n anodd ateb y galw uwch am wasanaethau wrth geisio croesawu ton newydd o 'wirfoddolwyr' amharod posibl ar yr un pryd, yn enwedig heb adnoddau ychwanegol. Bydd hyn yn gadael grwpiau sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn mewn sefyllfa fregus tu hwnt.

Yn y gorffennol, mae sector gwirfoddol Cymru wedi chwarae rôl allweddol mewn cyflwyno mentrau cyflogadwyedd, yn arbennig drwy raglenni fel y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol. Rhoddodd y gronfa hon gymorth hirdymor i fudiadau gwirfoddol redeg cynlluniau cyflogadwyedd, gan gynnwys sicrhau bod cymorth ar gael i wirfoddoli. Ond ar ôl Brexit, mae colli cyllid yr UE wedi effeithio'n sylweddol ar y mentrau hyn. Nid yw Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU wedi disodli'r cymorth hwn yn ddigonol, gan danseilio capasiti'r sector gwirfoddol i barhau i gyflwyno gwasanaethau cyflogadwyedd effeithiol. Gan ystyried y cyllid sydd ar gael, nid yw'n ymddangos y bydd y Gronfa Twf Lleol yn llenwi'r bwlch hwn chwaith.

4.0 RHAID I WIRFODDOLI FOD YN WIRFODDOL

Mae partneriaid y sector gwirfoddol wedi mynegi nifer o bryderon ynghylch y diwygiadau a gynigir. Mae'r rhain yn cynnwys y cynigion i wthio pobl anabl i mewn i rolau gwirfoddol, sut i'w cefnogi a pha fuddion, os o gwbl, fyddant yn eu cael o'r math hwn o gysylltiad â'r sector gwirfoddol.

Mae mudiadau gwirfoddol Cymru yn frwd ynghylch buddion posibl gwirfoddoli ac yn ceisio sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno gwirfoddoli

yn cael cyfle i wneud hynny. Ond gofidir y bydd rhai pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gorfodi i ymgymryd â rôl wirfoddol gan y bygythiad o gosbau ar fudd-daliadau. Yn yr un modd, mae pryder y gall rhai deimlo'n ddryslyd gan y gofynion, a derbyn cyngor camarweiniol neu anghywir ynghylch eu rôl wirfoddol. Gall hyn leihau buddion gwirfoddoli, a chael effaith negyddol ar les unigolyn, gan olygu y bydd yn annhebygol o wirfoddoli eto yn y dyfodol. Er mwyn i wirfoddoli gael effaith bositif, rhaid iddo fod yn wirfoddol. Mae'r potensial am orfodaeth o dan y system a gynigir yn cael gwared â'r agwedd wirfoddol. Ynghyd â hyn, os bydd rhywun anabl sy'n gwirfoddoli ar hyn o bryd yn colli rhan o'i gymorth drwy PIP neu UC ar ôl y diwygiadau, mae'n bosibl na fydd yn gallu parhau i wirfoddoli.

Er bod bob amser galw am wirfoddolwyr, nid oes capasiti priodol bob amser i'w cefnogi. Nid yw pob mudiad wedi gwneud yr hyfforddiant angenrheidiol, neu nid oes ganddo'r cyfarpar na'r cyfleusterau priodol i fodloni gofynion pob unigolyn anabl. Gall y rhwystrau hyn ei gwneud hi'n anodd i rai pobl ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli priodol. Yn anffodus, mae rhwystrau diwylliannol ac agweddol tuag at bobl anabl yn parhau o fewn rhai mudiadau, a gallai hyn effeithio'n negyddol ar wirfoddolwyr anabl.

4.1 Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff seilwaith y sector gwirfoddol

Mae'r seilwaith gwirfoddoli presennol yng Nghymru, Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), mewn sefyllfa dda i sicrhau bod gwirfoddoli yn brofiad positif i bawb, gan gynnwys pobl anabl. Mae swyddogion gwirfoddoli TSSW yn gweithio ar draws y sector i hyrwyddo a galluogi datblygiad cyfleoedd gwirfoddoli positif a phriodol. Fodd bynnag, heb adnoddau priodol, ni fydd yn bosibl cynyddu'r ddarpariaeth y tu hwnt i'r

galw presennol, a bydd hyn yn golygu na fydd llawer o bobl anabl yn gallu dod o hyd i na chael y rolau gwirfoddol y dywedir bod yn rhaid iddynt ymgymryd â nhw.

Gan ystyried yr allgymorth a chyfathrebu cyfyngedig â TSSW, mae pryder nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi llwyr ystyried sut byddai'n cefnogi a chynnwys mudiadau seilwaith gwirfoddoli. Heb ddigon o weithio mewn partneriaeth gyda chyrff seilwaith lleol y sector gwirfoddol, byddai'n system heb arbenigedd a chymorth TSSW, a heb fudd rhwydweithiau cyfredol. Heb gymorth arbenigol, gallai unigolyn gael ei roi mewn rôl wirfoddol amhriodol lle nad yw ei ofynion mynediad yn cael eu diwallu'n briodol, gan effeithio ar ei les a niweidio'i hunan-barch. Byddai hyn yn gadael pobl anabl yn llai parod am waith na fyddent wedi bod fel arall.

I'r gwrthwyneb, byddai TSSW yn gallu cyfeirio unigolyn at un o'u harbenigwyr gwirfoddoli. Byddai un o arbenigwyr TSSW yn gweithio gyda'r unigolyn i ddeall ei sgiliau, diddordebau ac anghenion mynediad. Byddai'n cael ei osod gyda mudiad sy'n deall ac yn cymhwyso'r model anabledd cymdeithasol, gyda'r seilwaith ffisegol priodol, ac sydd wedi cael hyfforddiant digonol i sicrhau profiad gwirfoddoli positif. Gallai TSSW roi cyngor i fudiadau ar arferion gorau, eu cyfeirio at gymorth pellach a helpu gwirfoddolwyr i ddod o hyd i leoliadau mwy priodol pan na fydd y swydd yn gweddu â nhw. Mae'n hanfodol felly bod unrhyw raglen wirfoddoli yn cael ei gweithredu mewn partneriaeth â TSSW yng Nghymru.

5.0 CASGLIAD

Mae CGGC yn credu y gall gwirfoddoli fod yn weithgaredd positif i bawb, ond dim ond os oes cymorth priodol yn ei le i sicrhau ei fod yn brofiad

diogel, cefnogol a hwylus. Gall gwirfoddoli fod yn rhan o daith tuag at gyflogaeth, ond dim ond os mai dyma'u canlyniad dymunol. Bydd gwthio rhywun i mewn i weithgareddau gwirfoddol yn lleihau'r potensial am fuddion positif a gall effeithio'n negyddol ar ei les.

Bydd gwirfoddoli dim ond yn helpu rhywun i mewn i waith os bydd cymorth priodol ei ddarparu. Dylid cynnwys seilwaith a rhwydweithiau cysylltiedig presennol TSSW a rhoi'r adnoddau priodol iddynt gynorthwyo unrhyw un a hoffai gymryd rhan mewn gwirfoddoli yng Nghymru.

Yn gyffredinol, rhaid cydnabod bod sector gwirfoddol Cymru yn fwy agored i effeithiau'r diwygiadau a gynigir, a Chymru fydd yn cael ei tharo'n galetach nag unrhyw le arall yn y DU. Bydd sector gwirfoddol Cymru yn gwneud cymaint â phosibl i gamu ymlaen i ddatrys yr heriau y mae hyn yn ei gyflwyno. Mae fwyfwy o bryder y bydd disgwyl i'r sector gymryd gwirfoddolwyr ag anghenion cymorth uchel heb dderbyn yr adnoddau priodol i wneud hynny.

Rhaid i'r DWP a Llywodraeth ehangach y DU ailystyried sut y mae'n mynd ati i ddiwygio lles, gan gydnabod y costau dynol a'r effaith ar y sector gwirfoddol yng Nghymru.

LLYFRYDDIAETH

Sefydliad Bevan. 2025. *Gallai diwygiadau PIP daro Cymru yn galed*. Ar gael yn: *https://www.bevanfoundation.org/views/pip-reforms-could-hit-wales-hard/ [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2025].

Cyngor ar Bopeth. 2025. *Llwybrau i Dlodi: Sut bydd toriadau arfaethedig i fudd-daliadau pobl anabl yn effeithio ar y bobl rydym yn eu cefnogi*. Ar gael yn: *https://www.citizensadvice.org.uk/policy/publications/pathways-to-poverty-how-planned-cuts-to-disability-benefits-will-impact-the/ [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2025].

Thomas, C. a Davies, P. 2025. *Diwygiadau lles: Y goblygiadau i Gymru*. Ar gael yn: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/diwygio-lles-y-goblygiadau-i-gymru/ [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2025].

Zhivkova, N. 2025. *Ble mae'r sector gwirfoddol yn y gyllideb ddrafft?* Ar gael yn: https://wcva.cymru/cy/views/ble-maer-sector-gwirfoddol-yn-y-gyllideb-ddrafft/ [Cyrchwyd: 23 Mehefin 2025].

*Saesneg yn unig